YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

Nodiadau ar gyfer ceisiadau oddi wrth Elusennau Cofrestredig

1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod pum gwaith y flwyddyn i drafod ceisiadau.

2. Mae'n bosibl ystyried ceisiadau oddi wrth elusennau cofrestredig yn unig.

3. Mae'r grantiau sydd ar gael i ymgeiswyr llwyddiannus yn dueddol o fod yn rhai bychain – dim mwy na ychydig o gannoedd gan amlaf – a chyfyngir y rhain i eitemau unigol o wariant cyfalaf. Er enghraifft: atgyweirio adeilad, offer swyddfa, offer chwarae a chyhoeddiadau arbennig.

4. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn medru ystyried ceisiadau ar gyfer cwrdd a chostau rhedeg unrhyw gymdeithas, gan gynnwys cyflogau. Nid oes modd adnewyddu grantiau.

5. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn medru ystyried rhoi cymorth i unrhyw apêl cyffredinol; mae'n ofynnol cyflwyno cais ar gyfer prosiect penodol.

6. Rhoddir blaenoriaeth i elusennau 'lleol'. Gall elusen Prydeinig cyflwyno cais i'r Ymddiriedolaeth ond rhaid dangos bod y proseict o fudd i bobl Cymru.

7. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ceisiadau oddi wrth canghennau lleol o elusennau Cymru-eang (neu Brydain). Ond nid yw hyn yn cau allan grwpiau lleol ar gyfer yr ifanc (yr Urdd, scowtiau, 'guides', ac yn y blaen) rhag cyflwyno ceisiadau i'r Ymddiriedolaeth. Mae'n bosibl, weithiau, i ystyried ceisiadau o brif swyddfa elusen yng Nghymru neu ym Mhrydain, pan fydd y cais o fudd i ganghennau'r elusen yng Nghymru.

8. Pan yn asesu ceisiadau mae'r Ymddiriedolwyr yn talu sylw arbennig i:
   1. bwrpas y cais.
   2. anghenion ariannol ac adnoddau ariannol yr ymgeiswyr.
   3. brwdfrydedd yr ymgeiswyr i godi arian eu hunain (pan yn berthnasol).

lle gellid dangos bod cymorth yr Ymddiriedolaeth o bwys i wireddu'r prosiect arbennig. Golyga hyn ffafriaeth i elusennau lleol yn hytrach na'r apeliadau a ddaw o gyrff Cymru a Phrydain eang.